



Nodyn Briffio / Briefing Note

(Scroll down for English)

13 Hydref 2010

Adolygu Gwasanaethau Llawfeddygaeth Gyffredinol Frys

Bydd digwyddiad rhanddeiliaid yn cael ei gynnal ar 15 Hydref i drafod y ffordd y mae Gwasanaethau Llawfeddygaeth Gyffredinol Frys yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar draws Gogledd Cymru.

Mae dros 100 o unigolion yn cynrychioli cleifion, clinigwyr, sefydliadau partneriaeth a grwpiau gwirfoddol wedi derbyn gwahoddiad i'r digwyddiad fel y gellir cynnwys eu barn yn rhan o adolygiad a fydd yn galluogi i wasanaethau gael eu trefnu yn effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Bydd y digwyddiad yn ystyried y materion sydd yn effeithio ar wasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys ac yn ceisio syniadau ar sut y gellir datrys y materion hyn. Ni fydd yr un penderfyniad yn cael ei wneud o ran newidiadau i'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymrwymo i gynnal yr Adrannau Achosion Brys yn y tri phrif ysbyty yng Ngogledd Cymru ac yn ddiweddar derbyniodd £7m o arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ailwampio cyfleusterau yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn Ysbyty Gwynedd.

Bydd yr adolygiad hwn yn sefydlu gwahanol opsiynau a fydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i barhau i ddarparu gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys sydd o ansawdd uchel, yn ddiogel ac yn gynaliadwy i gefnogi'r 3 Adran Achosion Brys.

Bydd yr adolygiad yn cymryd anghenion pobl Gogledd Cymru i ystyriaeth, yn ogystal â lefel y staff meddygol sydd ar gael ar hyn o bryd a pha mor hygyrch a fforddiadwy yw'r gwasanaethau. Byddir wedyn yn gallu gwneud penderfyniad a oes angen newid gwasanaethau presennol i sicrhau diogelwch, ansawdd a chynaliadwyedd.

Nid yw cyflyrau a fyddai ddigon posibl angen Gwasanaethau Llawfeddygaeth Gyffredinol Frys yn rhai sy'n bygwth bywyd fel rheol ac yn gyffredinol bydd angen diagnosis a thriniaeth ofalus arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys heintiau ar y croen neu'r meinwe, problemau abdomenol, gwaedu yn y bibell gastroberfeddol yn ogystal â chleifion, yn cynnwys plant, â chanddynt nifer o anafiadau. Y llawdriniaethau mwyaf cyffredin yw llid y pendics a draenio casgliadau.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Dywedodd Dr Tony Shambrook, Anaesthetydd Ymgynghorol a Phennaeth Staff Llawfeddygaeth: "Mae'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd yn seiliedig ar ffiniau cyn-sefydliadau'r GIG yng Ngogledd Cymru ac nid yw'n gwneud y defnydd gorau o'n staff, cyfleusterau a'r arian sydd ar gael i ni. Mae angen gweithio'n fwy hyblyg ac effeithlon i sicrhau ansawdd a diogelwch.

"Mae un sefydliad gofal iechyd ar draws Gogledd Cymru hefyd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaeth llawfeddygol arbenigol fwy effeithiol, sy'n rhoi'r cyfle i'n llawfeddygon ddatblygu eu harbenigedd a darparu gwell hyfforddiant ar gyfer meddygon iau".

Caiff digwyddiad rhanddeiliaid pellach ei gynnal ar 5 Tachwedd cyn i fwrdd prosiect yr adolygiad gyflwyno ei ganfyddiadau i fwrdd BIPBC ym mis Tachwedd 2010.

Nodiadau:

1. Llawfeddygaeth Ddewisol - term a ddefnyddir amlaf i ddisgrifio llawdriniaeth sydd wedi ei drefnu ymlaen llaw lle bydd claf sydd eisoes wedi cael ei baratoi yn cael ei dderbyn i ysbyty neu glinig - un ai fel achos dydd neu fel claf mewnol.

2. I'r gwrthwyneb - y term 'Llawfeddygaeth Frys' - term a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng llawfeddygaeth ddewisol. Nid oes amser ynghlwm â'r term 'brys' yn y cyddestun hwn. Yn dilyn asesiad, efallai y bydd angen llawdriniaeth ar rai cleifion o fewn ychydig oriau, tra bo eraill o fewn ychydig ddyddiau. Fel rheol, dim ond 30-45% o gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac sydd o bosibl angen gwasanaeth llawfeddygaeth gyffredinol frys sydd yn cael llawdriniaeth.

3. Mae mwy o wybodaeth am yr adolygiad ar gael o dan 'Current Developments' yn www.bcu.wales.nhs.uk

13 October 2010

Review of Emergency General Surgery Services

A stakeholder event will be held on October 15th to discuss the way Emergency General Surgery is provided by the Betsi Cadwaladr University Health Board across North Wales.

Over 100 individuals representing patients, clinicians, partner organisations and voluntary groups have been invited to the event so that their views can be gathered as part of a review that will allow services to be planned effectively for the future.

The event will consider the issues affecting the emergency general surgery services and generate ideas on how solutions can be reached. No decision will be made on any service changes at this stage.

The Health Board remains committed to maintaining Emergency Departments at the three main hospitals in North Wales and has recently received over £7m Welsh Assembly Government funding to refurbish the facilities at Ysbyty Glan Clwyd and Ysbyty Gwynedd.

This review will establish a range of options that enable the Health Board to continue to provide high quality, safe and sustainable emergency general surgery services to support the 3 Emergency Departments.

The review will consider the needs of the people of North Wales, the current level of medical staff available, and the accessibility and affordability of services. A decision can then be made on whether existing services need to be changed to ensure safety, quality and sustainability.

The conditions which could potentially require Emergency General Surgery are not usually life threatening and generally require considered diagnosis and treatment. These include skin or tissue infections abdominal problems, gastro intestinal bleeding and patients with multiple injuries, including children. The most common operations performed are appendicitis and abscess draining.

Dr Tony Shambrook, Consultant Anaesthetist and Chief of Staff for Surgery said:
“The way that services are currently run is based on the boundaries of the former NHS organisations in North Wales and does not make the best use of our staff, facilities and the resources available to us. There is a need to work more flexibly and efficiently to ensure quality and safety.

“The establishment of a single healthcare organisation across North Wales also provides opportunities for the providing more effective specialist surgery, allowing

our surgeons to develop their expertise and providing better training for junior doctors.”

A further stakeholder event will be held on November 5th before the review project board will present its findings to the BCUHB board in November 2010.

Notes:

1. Elective Surgery – is the term most commonly used to describe surgery carried out on a planned basis where a fully prepared patient is admitted to a hospital or other clinical facility – either as a day-case or inpatient.

2. By contrast – the term ‘Emergency Surgery’ – is a term used to distinguish it from planned elective surgery. The term ‘emergency’ in this context has no clear sense of time associated with it. Some patients, following assessment, may require surgery within several hours, others within several days. Typically, only 30-45% of patients admitted as to hospital potentially needing emergency general surgery go on to have an operation.

3. More information on the review is available under ‘Current Developments’ at www.bcu.wales.nhs.uk